# LAMPRIAID



*Sgôp y Cynllun Gweithredol:*

Mae'r Cynllun Gweithredol yma yn trafod lamprai'r môr (*Petromyzon marinus*), lamprai'r afon (*Lampetra fluviatilis*) a lamprai'r nant (*Lampetra planeri*)

## 1. SEFYLLFA BRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cyfarwyddiaeth Cynefinoedd[a] (Atodlen II I GYD, Atodlen V – lamprai'r afon)<br>Confensiwn Berne (Atodiad III) |
| DU a Chymru | Rheoliadau Cynefin[b] (Atodlen 4 – lamprai'r afon)<br>SoCC[c] |
| Gwynedd | Dim |

### 1.2 Sefyllfa yng Nghymru a thu hwnt

Mae'r tair rhywogaeth yn gyffredin ym Mhrydain – ond mewn perygl (lamprai'r afon) ac yn fregus (lamprai'r nant a'r môr) yn Ewrop[d].

### 1.3 Sefyllfa yng Ngwynedd [e]

Nid oes unrhyw waith arolwg arwyddocaol wedi digwydd yng Ngwynedd, ble gwyddys fod y tair rhywogaeth yma yn byw. Mae poblogaethau y gwyddys amdanynt yn cynnwys:

- Lamprai'r môr – Afon Seiont (oedolion), abery Fawddach, Dyfi.
- Lamprai'r afon – Gwyrfai (estyniadau gwaelod i'r canol), dim manylion ar gael.
- Lamprai'r nant – Gwyrfai, Seiont, Llyfni, dim manylion ar gael.

## 2. FFACTORAU SYDD YN EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH YMA YNG NGWYNEDD [f]

- Llygredd dŵr, yn cynnwys goferiad amaethyddol gwasgaredig o bryflleiddiaid, nitradau, gwastraff fferm; llygredd pwynt ffynhonnell yn cynnwys dadlwythiad carthffosiaeth, draenio o weithfeydd chwarel a mwyngloddio; - mae'r effeithiau yn uniongyrchol (effeithiau gwenwynig) ac anuniongyrchol (dadocsigeneiddio dŵr drwy ewtroffeiddiad)
- Llaid wedi erydu o safleoedd cyfagos (o ganlyniad i arferion rheolaeth mewn darnau o afonydd, er enghraifft gorbori, coedwigaeth) yn gallu mygu cynefinoedd cenhedlu pwysig
- Gwaith afonydd yn gallu achosi diraddiad cynefinoedd (sy'n arbennig o bwysig yn achos safleoedd epilio) neu greu rhwystrau i bysgod ddychwelyd (e.e. coridau neu argaeau aberol).

---

[a] Gorchymyn Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol i anifeiliaid a blodau gwyllt.
[b] Rheoliadau Cadwraeth Ewropeaidd (Cynefinoedd Naturiol) 1994
[c] Rhestr Pryder Cadwraeth Rhywogaeth Prydain
[d] Biodiversity – A Species Audit for Wales.
[e] O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at ardaloedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, onibai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb
[f] Gweler hefyd CGCau cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sydd yn effeithio ar gynefinoedd y rhywogaethau yma

## 3. CGR A CGC PERTHNASOL YNG NGWYNEDD

Gwastadeddau lleidiog, Coridorau afonydd , Llynnoedd, pyllau a ffosydd,

Dyfrgi, Llygoden ddŵr, Eogiaid, Misglen berlog yr afon, Dŵr Lyriad nofiadwy, Pelenllys

## 4. CAMAU CYFREDOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Gall lamprai fodoli mewn cynefinoedd y gellid eu galw'n safleoedd Bywyd Gwyllt posibl, neu'n ddynodedig yn SoDGA, Ymgeisydd ACA neu AGA. Cynhwyswyd bodolaeth lamprai'r môr o fewn y rhesymeg dros ddynodi Aber yr afon Mawddach yn SoDGA (hysbyswyd 1998).

### 4.2 Rheolaeth a Chynlluniau Gweithredu

- Bydd rhai poblogaethau wedi cael mantais o fylchau pysgod a thwnelau dargyfeirio a adeiladwyd ar gyfer rhywogaethau eraill
- Cynhyrchwyd cynlluniau gweithredu drafft ar gyfer y tair rhywogaeth fel sail i fesurau cadwraeth pellach
- Rhoddir gwybodaeth am lamprai a materion cadwraeth cysylltiedig mewn taflen wybodaeth ddwyieithog (Lamprai – neges gadwriaethol), sy'n annog y cyhoedd i hysbysu'r Asiantaeth yr Amgylchedd am ddaliadau ac arsylliadau achlysurol
- Mae Menter Pysgota Cynaliadwy Gwynedd yn defnyddio cyllid Amcan 1 i wella cynefin rhannau o afonydd Gwynedd sy'n bwysig i bysgodfeydd
- Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn rhedeg prosiect Dŵr i Fywyd Gwyllt (gynt yn Brosiect Dyfrgwn ac Afonydd) ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae'n amcanu at gynnal gwaith cadwraethol gyda chymunedau lleol mewn cynefinoedd glannau afonydd a thir gwlyb. Ar hyn o bryd, mae rheolwr i Gymru, a bydd swyddog prosiect Gogledd Cymru yn ymuno gydag ef yn fuan.
- Mae 5 grwp gofal afon ar hyn o bryd yng Ngwynedd fel rhan o brosiect afonydd Glân (Cadw Cymru'n Daclus)
- Is-ddeddfau Pysgodfeydd Môr Lleol

### 4.3 Arolwg, ymchwilio a monitro

- Cynhelir asesiadau ansawdd cyffredinol bob pum mlynedd gan yr Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n dynodi ansawdd y dŵr a'r anifeiliaid di-asgwrn-cefn a geir yn yr holl brif ddyfrffyrdd

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I sefydlu statws a dosbarthiad presennol y tair rhywogaeth gynhenid o lamprai yng Ngwynedd
2. I ddiogelu, cynnal a gwella'r poblogaethau lamprai presennol a'u cynefinoedd cysylltiedig, yn enwedig yr ardaloedd epilio a magu
3. I gynyddu ymwybyddiaeth ymysg pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill o goridorau afonydd, aberoedd a llynnoedd sy'n gysylltiedig â lamprai
4. I ddefnyddio lamprai fel rhywogaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd rheolaeth briodol o'r cynefinoedd cysylltiedig

## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

| Côd | Camau | Partner(iaid)[9] |
|---|---|---|
| **Polisi a Deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn mannau sensitif yn cydfynd â chadwraeth lampreiod<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **CG,** Partneriaid Perthnasol |
| 2 | Cynnwys gweithrediadau cadwraethol ar gyfer lamprai yn holl gynlluniau priodol yr AA a gyhoeddir yn y dyfodol<br>TARGED/ Amserlen: Cyfredol | **AA,** |
| 3 | Sicrhau fod cynlluniau AA perthnasol yn eu lle ar gyfer SoDdGau ble y gwyddys bod lamprai'n bresennol<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **CCGC**, AA |
| **Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd** | | |
| 4 | Pan mae bylchau pysgod yn bodoli, sicrhau eu cynnal a'u diogelu oddi wrth broblemau posib o'r afon uwchlaw, yn cynnwys tyniadau<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **AA**, CCGC |
| 5 | Ystyried darparu bylchau pysgod ychwanegol yn dibynnu ar ganlyniadau arolygon pysgod yn y dyfodol<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **AA**, CCGC |
| **Cyngor** | | |
| | Dim | |
| **Arolwg, ymchwil a monitro** | | |
| 6 | Pan yn briodol ac yn bosib, cynorthwyo i ddatblygu dulliau arolygu i benderfynu poblogaethau ieuanc ar gyfer bob rhywogaeth ar wahân<br>TARGED: Cyfredol | **AA**, CCGC CEH, CPC |
| 7 | Trefnu arolwg cychwynnol o rywogaeth y lamprai yng Ngwynedd<br>TARGED/ AMSERLEN: i'w bennu | **CCGC**, AA |
| 8 | Adnabod anghenion i'r dyfodol am arolygon a diogelwch yr ardaloedd allweddol yn sgil canlyniadau'r arolwg cychwynnol, ac o gofnodion gan bysgotwyr ac eraill o ddaliadau ac arsylliadau achlysurol,<br>TARGED/ AMSERLEN: i'w bennu | **AA**, CCGC, CG |
| **Cyfathrebiaeth a chyhoeddusrwydd** | | |
| 9 | Codi ymwybyddiaeth ymhlith pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill o'r cynefinoedd perthnasol o'r materion cadwriaethol sy'n gysylltiedig â lamprai, yn enwedig y problemau o'u defnyddio fel abwyd byw neu farw, au hannog i gofnodi gweld neu ddal lampreiaid byw trwy gylchu'r daflen "Lamprai – neges gadwriaethol" i holl glybiau pysgota, grwpiau Gofal Afonydd, a chanolfannau Chwaraeon Dŵr yng Ngwynedd.<br>TARGED: cylchu taflenni, wedi eu haddasu i gynnwys gwybodaeth cysylltu â'r AA yn lleol, Gwanwyn 2005. | **AA**, CG, CCD |

[9] Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gydag ysgrifen dywyll, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

### 7.1 Prif bartner ar gyfer CGR:

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Canolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cadw Cymru'n Daclus (CCD)

### 7.3 Cyfleon

Defnyddwyr Hamdden, pysgotwyr, grwpiau Prosiect Afonydd Glan

## 8 DIOLCHIADAU

**Prif Awdur:** Nicola Lewis **Cyd-awdur:** Tine Sehemer
Ymgynghori: Richard Brassington (AA)
Darluniau : English Nature

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig